BENDERFYNU YN UNFRYDOL gynnal sesiwn preifat er mwyn cael cyngor cyfreithiol yn unol â Pharagraff 16 o Atodlen 12A i'r Ddeddf Llywodraeth Leol.

Ar ôl y toriad ailymgynullodd yr Is-bwyllgor i gyhoeddi ei benderfyniad ac ar ôl ystyried y paragraffau perthnasol o Ddatganiad Polisi Trwyddedu yr Awdurdod Trwyddedu a'r Cyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) a chan y Swyddfa Gartref

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais o dan yr amodau a gytunwyd gan yr holl bartïon.

Y RHESYMAU

Wrth benderfynu ar y cais, yr oedd y ffeithiau canlynol yn hysbys i'r Is-bwyllgor;

1. Yr oedd y safle mewn stryd a oedd wedi ei chlustnodi yn natganiad polisi trwyddedu yr awdurdod yn fan problemus o ran troseddau ac anhrefn mewn perthynas ag alcohol.
2. Mae'r Heddlu yn gwrthwynebu'r cais mewn egwyddor ar sail troseddau ac anhrefn.
3. Nid oedd dim tystiolaeth o droseddau ac anhrefn cysylltiedig ag alcohol wedi digwydd ar y safle neu yn gysylltiedig â'r safle.
4. Dim ond 1 achos a gofnodwyd o ymarfer rheoli diffygiol yn y safle, a arweiniodd at rybudd y goruchwylydd safle dynodedig (DPS) blaenorol.
5. Roedd yr oriau cynyddol a geisid yn llai nag oriau terfynol safleoedd trwyddedig yng nghyffiniau'r safle.
6. Roedd yr ymgeisydd wedi gosod teledu cylch cyfyng, staff drws cofrestredig Awdurdod y Diwydiant Diogelwch (SIA) a hyfforddiant staff yn eu lle.

Roedd yr Is-bwyllgor wedi rhoi pwys ar farn yr Heddlu a'r Awdurdod Trwyddedu, ac ar y ffaith nad oedd dim sylwadau gan yr Awdurdodau Cyfrifol eraill. Hefyd roedd yr Is-bwyllgor wedi rhoi ystyriaeth i faterion troseddau ac anhrefn yng nghyffiniau'r safle, ond nad oeddynt i'w priodoli'n uniongyrchol i'r safle.

Roedd yr Is-bwyllgor yn cydnabod bod yn rhaid i'w benderfyniad gael ei seilio ar dystiolaeth wirioneddol, ac nad oedd pryderon nac ofnau ynghylch yr hyn a allai ddigwydd pe caniateid y cais, lle nad oedd tystiolaeth o'r fath i'w hategu, yn faterion y gallai roi ystyriaeth briodol iddynt.

Derbyniodd yr Is-bwyllgor dystiolaeth yr Heddlu ar lefel bresennol y troseddau ac anhrefn yn Heol Awst. Derbyniodd yr Is-bwyllgor fod y safle wedi'i redeg yn dda ac nad oedd hanes o droseddau ac anhrefn yn y safle nac yn gysylltiedig â'r safle.

Er bod yr is-bwyllgor yn cydnabod pryderon yr Heddlu y byddai caniatáu'r cais yn beryg o gynyddu'r problemau presennol yn y stryd, nododd fod yr oriau estynedig a geisid yn dal i fod yn sylweddol llai nag oriau agor safleoedd eraill cyfagos.

Derbyniodd yr Is-bwyllgor dystiolaeth yr Heddlu y byddai caniatáu'r cais hwn yn debygol o olygu bod rhagor o yfwyr yn mudo i Heol Awst ac yn aros yno ac y byddai hyn yn effeithio ar y lefel gyffredinol o droseddau ac anhrefn yn y stryd.

Ar gydbwysedd tebygolrwydd felly, daeth yr is-bwyllgor i'r casgliad y byddai caniatáu'r cais fel ag y mae yn debygol o danseilio'r amcan o atal troseddau ac anhrefn.

Ond yr oedd yr Is-bwyllgor wedi'i fodloni y gellid mynd i'r afael â hyn drwy ychwanegu amodau ychwanegol i'r drwydded safle yn hytrach na gwrthod y cais yn llwyr.

Ar gydbwysedd tebygolrwydd, yr oedd yr Is-bwyllgor wedi'i fodloni bod yr amodau a gytunwyd rhwng y partïon yn gymesur, ac yn briodol i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.

CADEIRYDD

DYDDIAD

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Dydd Iau, 5 Mai 2016

YN BRESENNOL: Y Cyngorydd A. Davies (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr:

T. Bowen a/ac T. Theophilus

Yn bresennol fel sylwedyddion: Y Cyngorydd J.M. Charles a'r Cyngorydd P.E.M. Jones

Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:

R. Edgecombe, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol

E. Jones, Pen-swyddog Trwyddedu

K Smith, Swyddog Trwyddedu

M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democraidaidd

Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin: 9.30 am - 9.35 am

Ymweliad Safle: 10.00 a.m. – 10.15 a.m.

Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin: 10.30 a.m. – 11.50 a.m.

1. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

2. PENDERFYNU AR Y CAIS TRWYDDEDU A NODIR YN EITEM 2 UCHOD

Gadawodd yr Is-bwyllgor yr ystafell ac ailymgynnull ar safle 21 Heol Llandeilo, Crosshands am 10.00 a.m. er mwyn cael golwg ar leoliad y safle. Ar ôl i'r ymweliad â'r safle ddod i ben, ailymgynnullodd yr Is-bwyllgor yn y Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin am 10.30 a.m. i ystyried y cais.

Rhoddodd Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol wybodaeth i bawb oedd yn bresennol am drefn y cyfarfod, a hysbysodd yr Is-bwyllgor fod cais wedi dod i law gan Mr. S. Laidler a Mrs. H. Laidler am drwydded safle ar gyfer The Cross Hands Ale House, 21 Heol Llandeilo, Cross Hands i ganiatau:

Cyflenwi Alcohol: Dydd Llun i ddydd Gwener 16:00-22:00
Dydd Sadwrn a dydd Sul 12:00-22:00

Oriau Agor: Dydd Llun i ddydd Gwener 16:00-22:30
Dydd Sadwrn a dydd Sul 12:00-22:30

Nododd yr Is-bwyllgor fod y dogfennau canlynol ynghlwm wrth yr adroddiad:-

- Atodiad A – copi o'r cais gwreiddiol a gyflwynwyd gan yr ymgeisydd;
- Atodiad B – sylwadau a gyflwynwyd gan yr Awdurdod Trwyddedu;
- Atodiad C – sylwadau a gyflwynwyd gan Heddlu Dyfed-Powys, yr oedd yr ymgeisydd wedi cytuno arnynt;
- Atodiad D – sylwadau a gyflwynwyd gan bobl eraill.

Nid oedd yr Awdurdodau Cyfrifol eraill wedi cyflwyno sylwadau ar y cais. Cytunodd

yr holl bartïon fod y dogfennau ychwanegol canlynol yn cael eu dosbarthu i'r Is-bwyllgor.

Cyfeiriodd cynrychiolydd yr Awdurdod Trwyddedu at ei sylwadau fel sydd i'w gweld yn Atodiad B yr adroddiad. Cyfeiriodd at yr amodau trwyddedu ychwanegol canlynol yr oedd yr ymgeisydd wedi cytuno arnynt:

- Hysbysiadau i'w harddangos ynglŷn â bod yn gwrtais i gymdogion;
- Dim hawl i blant o dan 16 oed fynd i'r safle;
- Rhai 16-18 oed i gael mynediad os ydynt yng nghwmni oedolyn yn unig.

Rhodddwyd cyfle i'r holl bartïon holi cynrychiolydd yr Awdurdod Trwyddedu ynghylch y sylwadau a wnaed.

Cyflwynwyd sylwadau i'r Is-bwyllgor gan bartïon â buddiant a wrthwynebai amrywio'r drwydded safle am y rhesymau a nodir yn Atodiad D.

Rhodddwyd cyfle i'r holl bartïon ofyn cwestiynau am y dystiolaeth a gyflwynwyd.

Wedyn bu i'r ymgeisydd ymateb i'r pryderon a'r materion a godwyd.

Rhodddwyd cyfle i'r holl bartïon ofyn cwestiynau am y dystiolaeth a gyflwynwyd.

Wedyn bu i'r Is-bwyllgor

BENDERFYNU’N UNFRYDOL gynnal sesiwn preifat er mwyn cael cyngor cyfreithiol yn unol â Pharagraff 16 o Atodlen 12A i'r Ddeddf Llywodraeth Leol.

Ar ôl y toriad ailymgynullodd yr Is-bwyllgor i gyhoeddi ei benderfyniad ac ar ôl ystyried y paragraffau perthnasol o Ddatganiad Polisi Trwyddedu yr Awdurdod Trwyddedu a'r cyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) a chan y Swyddfa Gartref

PENDERFYNWYD, ar ôl ystyried y dystiolaeth a oedd wedi ei rhoi gerbron yr Is-bwyllgor, fod y cais yn cael ei ganiatáu, a hynny'n unol â'r amodau trwydded ychwanegol yr oedd yr ymgeisydd a'r awdurdodau cyfrifol wedi cytuno arnynt.

Y RHESYMAU:-

Wrth benderfynu ar y cais, yr oedd y ffeithiau canlynol yn hysbys i'r Is-bwyllgor;

1. Nid oedd dim hanes o gwynion na champau gorfodi ar y safle;
2. Nid oedd yr Heddlu na'r Awdurdod Trwyddedu yn gwrthwynebu mewn egwyddor i ganiatáu'r cais;
3. Credai'r Heddlu a'r Awdurdod Trwyddedu nad oedd yr amserlen weithredu yn hyrwyddo'r amcanion Trwyddedu yn ddigonol;
4. Roedd yr ymgeisydd yn derbyn yr amodau trwydded ychwanegol yr oedd yr Heddlu a'r Awdurdod Trwyddedu wedi gwneud cais am eu cynnwys;
5. Nid oedd yr un o'r awdurdodau cyfrifol eraill (Gwasanaethau Iechyd y Cyhoedd yn benodol) wedi cyflwyno sylwadau;
6. Ni dderbyniwyd tystiolaeth o unrhyw drosedd ac anhrefn sylweddol yn gysylltiedig ag alcohol yng nghyffiniau'r safle;

7. Byddai unrhyw niwsans a gwyd o'r ardal ysmegu yn debygol o effeithio ar y safle preswyl cyffiniol yn rhif 19 yn unig;
8. Roedd y cyfyngiadau parcio sy'n weithredol ar yr heol y tu allan i'r safle yn caniatáu llwytho a dadlwytho ar y stryd.

Roedd yr Is-bwyllgor wedi rhoi pwys ar farn yr heddlu a'r awdurdod trwyddedu, ac ar absenoldeb unrhyw sylwadau gan yr awdurdodau eraill, a gwasanaethau iechyd y cyhoedd yn benodol.

Yr oedd yr Is-bwyllgor yn cydnabod bod yn rhaid i'w benderfyniad gael ei seilio ar dystiolaeth wirioneddol, ac nad oedd pryderon nac ofnau ynghylch yr hyn a allai ddigwydd pe caniateid trwydded, lle nad oedd dystiolaeth o'r fath i'w hategu, yn faterion y gallai roi ystyriaeth briodol iddynt. Yn yr un modd, nid oedd materion o angen neu ba ffynonellau eraill o alcohol sydd ar gael yn yr ardal yn faterion y gallai'r Is-bwyllgor roi ystyriaeth iddynt.

Nododd yr Is-bwyllgor na allai ddyblygu cyfundrefnau rheoleiddio eraill.

Wrth ddod i'w benderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor yn ystyriol o'r ffaith y gall roi ystyriaeth i faterion sy'n ymwneud â hyrwyddo pedwar amcan trwyddedu yn unig, sef;

1. Atal troseddu ac anhrefn
2. Atal niwsans cyhoeddus
3. Diogelu'r cyhoedd
4. Amddiffyn plant rhag niwed

Er i'r Is-bwyllgor ddod i'r casgliad bod dystiolaeth y gwrthwynebwyr yn gredadwy a diffuant, ni allai anwybyddu'r ffaith nad oedd eu pryderon wedi'u hategu gan yr amryw awdurdodau cyfrifol, ac nad oedd yr un ohonynt wedi gwrthwynebu caniatáu trwydded yn yr achos hwn.

Yn benodol, pryderai'r Is-bwyllgor ynglŷn ag effaith niwsans mwg o'r ardal ysmegu ar drigolion rhif 19, ond derbyniai mai mater o niwsans preifat fyddai hyn yn hytrach na niwsans cyhoeddus. Yn yr un modd, roedd pryderon diffuant ynglŷn â chyflenwi nwyddau ar y stryd yn fater mwy priodol i swyddogion Rheoli Traffig gan eu bod yn berthnasol i unrhyw fusnes sy'n gweithredu o'r safle yn hytrach nag i safle trwyddedig yn benodol.

Yr oedd yr Is-bwyllgor yn rhannu llawer o bryderon y gwrthwynebwyr, ond yr oedd o'r farn mai deddfwriaeth arall oedd yn briodol i fynd i'r afael â'r materion hyn, megis deddfwriaeth diogelwch tân a deddfwriaeth iechyd yr amgylchedd.

Yr oedd yr Is-bwyllgor felly yn fodlon ar gydbwysedd tebygolrwydd na fyddai caniatáu'r cais, ar ei ffurf ddiwygiedig, yn tanseilio unrhyw rai o'r amcanion trwyddedu ac mai priodol felly oedd caniatáu trwydded yn amodol ar y camau rheoli ychwanegol y cytunwyd arnynt.

CADEIRYDD

DYDDIAD

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Dydd Mawrth, 5 Ebrill 2016

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd I. Jackson [Cadeirydd]

Y Cynghorwyr:

J.M. Charles, a/ac D.J.R. Llewellyn

Yn bresennol fel sylwedydd:- Y Cynghorydd P. Edwards;

Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:

R. Edgecombe, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol

E. Jones, Pen-swyddog Trwyddedu

A Morgan, Environmental Health Practitioner

A. Rees, Swyddog Trwyddedu

M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democraidaidd

Y Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin: 9.30am – 9.35am;

Ymweliad Safle 10:15am – 10:25am;

Y Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin - 11:15am – 1:15pm

1. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

Ni ddatganwyd dim buddiannau personol yn y cyfarfod.

2. CAIS AM DRWYDDED SAFLE - ONE STOP, HEOL CWMAMAN, Y GARNANT, RHYDAMAN

Gadawodd yr Is-bwyllgor yr ystafell ac ailymgynnull ar safle yn Heol Cwmaman, y Garnant, Rhydaman am 10:15 a.m. er mwyn cael golwg ar leoliad y datblygiad arfaethedig. Ar ôl i'r ymweliad â'r safle ddod i ben, ailymgynnullodd yr Is-bwyllgor yn y Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin am 11.15 a.m. i ystyried y cais.

Rhoddodd Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol wybodaeth i bawb oedd yn bresennol am drefn y cyfarfod, a hysbysodd yr Is-bwyllgor fod cais wedi dod i law gan One Stop Stores Ltd. am drwydded safle i ganiatáu: -

Cyflenwi Alcohol: Dydd Llun – Dydd Sul, 06:00 – 23:00

Oriau Agor: Dydd Llun – Dydd Sul, 06:00 – 23:00

Nododd yr Is-bwyllgor fod y dogfennau canlynol ynghlwm wrth yr adroddiad:-

- Atodiad A - copi o'r cais gwreiddiol a gyflwynwyd gan yr ymgeisydd;
- Atodiad B - sylwadau a gyflwynwyd gan yr Awdurdod Trwyddedu;
- Atodiad C – sylwadau a gyflwynwyd gan Heddlu Dyfed-Powys, yr oedd yr ymgeisydd wedi cytuno arnynt;
- Atodiad D – sylwadau a gyflwynwyd gan Wasanaethau Iechyd y Cyhoedd;

- Atodiad E - sylwadau a gyflwynwyd gan bobl eraill.

Nid oedd yr Awdurdodau Cyfrifol eraill wedi cyflwyno sylwadau ar y cais. Cytunodd yr holl bartïon fod copïau o'r dogfennau ychwanegol yn cael eu dosbarthu i'r Is-bwyllgor.

Cyfeiriodd cynrychiolydd yr Awdurdod Trwyddedu at ei sylwadau fel yr oeddent yn Atodiad B i'r adroddiad. Roedd o'r farn, o ystyried yr amodau diwygiedig yr oedd yr ymgeisydd a Swyddog Trwyddedu yr Heddlu wedi cytuno arnynt, y byddai'n briodol cynnwys yr amodau y cytunwyd arnynt yn lle'r holl ddatganiadau gwreiddiol yn y cais a oedd yn cyfeirio at deledu cylch cyfyng a chynllun profi oedran.

Rhodddwyd cyfle i'r holl bartïon holi cynrychiolydd yr Awdurdod Trwyddedu ynghylch y sylwadau a wnaed.

Cyfeiriodd cynrychiolydd Gwasanaethau Iechyd y Cyhoedd at ei sylwadau fel yr oeddent yn Atodiad D i'r adroddiad. Dywedodd, yn sgil cael cadarnhad gan yr is-adran gynllunio y byddai angen cais cynllunio arall ar gyfer lleoli offer ar y safle, ei fod yn barod i dynnu amodau 2,3, a 4 yn ôl. Fodd bynnag, gofynnodd fod amodau 1 a 5 yn cael eu hatodi o hyd a chyfeiriodd at amod arall a oedd wedi'i gynnig gan yr ymgeisydd ynghylch sbwriel yr oedd yn cytuno ag ef.

Rhodddwyd cyfle i'r holl bartïon holi ymgeisydd Gwasanaethau Iechyd y Cyhoedd ynghylch y sylwadau a wnaed.

Cyflwynwyd sylwadau i'r Is-bwyllgor gan bartïon â buddiant a oedd yn gwrthwynebu rhoi trwydded safle am y rhesymau a nodwyd yn Atodiad E.

Rhodddwyd cyfle i'r holl bartïon ofyn cwestiynau am y dystiolaeth a gyflwynwyd. Wedyn bu i gyfreithiwr yr ymgeisydd ymateb i'r pryderon a'r materion a godwyd.

Rhodddwyd cyfle i'r holl bartïon ofyn cwestiynau am y dystiolaeth a gyflwynwyd.

Yna bu i'r Is-bwyllgor

BENDEFYNU'N UNFRYDOL gynnal sesiwn preifat er mwyn cael cyngor cyfreithiol yn unol â Pharagraff 16 o Atodlen 12A i'r Ddeddf Llywodraeth Leol.

Ar ôl y toriad ailymgynullodd yr Is-bwyllgor i gyhoeddi ei benderfyniad ac ar ôl ystyried y paragraffau perthnasol o Ddatganiad Polisi Trwyddedu yr Awdurdod Trwyddedu a'r cyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) a chan y Swyddfa Gartref

PENDERFYNWYD, ar ôl ystyried y dystiolaeth oedd wedi ei rhoi gerbron yr Is-bwyllgor, fod y cais yn cael ei ganiatáu, a hynny'n unol â'r amodau trwydded roedd yr ymgeisydd a'r Heddlu wedi cytuno arnynt ac amod ychwanegol ynghylch rheoli sbwriel a oedd wedi'i gynnig gan yr ymgeisydd.

Y RHESYMAU:-

Wrth benderfynu ar y cais, yr oedd y ffeithiau canlynol yn hysbys i'r Is-bwyllgor:

1. Roedd y safle ar briffordd brysur;

2. Roedd nifer o safleoedd trwyddedig eraill yn y cyffiniau;
3. Byddai'r safle'n gweithredu fel siop gyffredinol a byddai gwerthu alcohol yn un rhan o'r busnes;
4. Nid oedd dim un o'r awdurdodau cyfrifol wedi gwrthwynebu caniatáu'r cais mewn egwyddor;
5. Mae'r ymgeisydd wedi derbyn yr amodau ychwanegol yr oedd yr heddlu wedi gofyn amdanynt
6. Nid oedd dim hanes o gwynion na champau gorfodi ar y safle;
7. Nid oedd unrhyw dystiolaeth ddiamheuol wedi'i chyflwyno ynghylch ymddygiad gwrthgymdeithasol neu droseddau sy'n gysylltiedig ag alcohol yng nghyffiniau'r safle;
8. Roedd yr oriau gweithredu a'r oriau trwyddedadwy yn wahanol i'r rhai a bennwyd yn y caniatâd cynllunio sy'n berthnasol i'r safle.

Roedd yr Is-bwyllgor wedi rhoi pwys ar farn yr Heddlu a Gwasanaethau Iechyd y Cyhoedd, ac ar y ffaith nad oedd dim sylwadau gan unrhyw awdurdod cyfrifol arall.

Roedd yr Is-bwyllgor yn cydnabod bod yn rhaid i'w benderfyniad gael ei seilio ar dystiolaeth wirioneddol, ac nad oedd pryderon nac ofnau ynghylch yr hyn a allai ddigwydd pe caniateid trwydded, lle nad oedd dystiolaeth o'r fath i'w hategu, yn faterion y gallai roi ystyriaeth briodol iddynt. Hefyd roedd yr Is-bwyllgor yn cydnabod nad oedd yn gallu rhoi ystyriaeth i faterion ynghylch angen.

Ym marn yr Is-bwyllgor, roedd dystiolaeth y preswylwyr lleol yn gredadwy ac yn ddilys, ond roedd wedi'i fodloni y byddai'r materion a nodwyd yn cael sylw priodol gan y mesurau rheoli a bennwyd yn yr atodlen weithredu a'r amodau ychwanegol yr oedd yr ymgeisydd a'r Heddlu wedi cytuno arnynt.

Nododd yr Is-bwyllgor y gwahaniaeth rhwng yr oriau gweithredu a'r oriau trwyddedadwy a nodwyd yn y cais hwn a'r amodau cynllunio a oedd yn berthnasol i'r eiddo. Roedd yr Is-bwyllgor wedi'i fodloni na ddylai wrthod y cais neu gyfyngu'r oriau gweithredu/trwyddedadwy am y rheswm hwn yn unig.

Roedd yr Is-bwyllgor wedi rhoi ystyriaeth ofalus i'r sylwadau gan Wasanaethau Iechyd y Cyhoedd ac roedd o'r farn nad oedd yr amodau trwydded arfaethedig yn briodol i hyrwyddo amcanion y drwydded nac yn gymesur â'r materion yr oeddent yn ceisio ymdrin â nhw oherwydd nad oedd y materion hyn yn uniongyrchol gysylltiedig â gwerthu alcohol, ond yn hytrach â gweithredu siop gyfleus yn gyffredinol.

Felly, ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd, roedd yr Is-bwyllgor wedi'i fodloni, ar ôl cloriannu'r hyn oedd yn debygol, na fyddai caniatáu'r cais, yn amodol ar y telerau y cytunwyd arnynt gan yr ymgeisydd a'r heddlu, ynghyd â'r amod ychwanegol ynghylch sbwriel a oedd wedi'i gynnig gan yr ymgeisydd, yn tansilio unrhyw un o'r amcanion trwyddedu.

CADEIRYDD

DYDDIAD

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

THURSDAY, 19TH MAY, 2016

PRESENT: Councillor T. Theophilus (Chair)

Councillors:

T. Bowen, J.M. Charles, A. Davies, T. Davies, P.M. Edwards, J.K. Howell, I.J. Jackson, H.I. Jones, P.E.M. Jones, D.J.R. Llewellyn, D.E. Williams and J.S. Williams

Also present at observers:

Mr R. Staines, Head of Housing & Public Protection
Councillor T.J. Jones, Executive Board Member for Environmental & Public Protection

The following officers were in attendance:

Mrs S. Watts - Public Health Services Manager
Mr R. Edgecombe - Legal Services Manager
Mr J. Power - Senior Licensing Officer
Mr P. Booth - Licensing Officer
Mrs M. Evans Thomas - Democratic Services Officer

Chamber, County Hall, Carmarthen : 10.00 a.m. - 11.05 a.m.

1. APOLOGIES FOR ABSENCE

Apologies for absence were received from Councillors J. Thomas and M.K. Thomas

2. DECLARATIONS OF PERSONAL INTERESTS

Councillor	Minute No.	Nature of Interest
H.I. Jones	9 – Application for the Grant of a Hackney Carriage/Private Hire Dual Driver’s Licence – Mr Christopher Phillips	Applicant known to him.

3. PRIVATE HIRE VEHICLE LICENCE

The Committee considered an application from Mrs Julie Michelle Bury of M4 Services, 14 Hendre Road, Tycroes, Ammanford, Carmarthenshire, to be granted an exemption from Conditions 5a and 5b of the Council’s Licence Conditions for Private Hire Vehicles for her BMW 218 Gran Tourer registration number M4 4WYR.

Mrs Bury had requested that, as she intended to operate this vehicle for air and sea port travel and executive hire only, that she be granted an exemption from Conditions 5a and 5b of the Council’s Licence Conditions, namely that she be not required to display door stickers and a licence plate on the rear bumper of her vehicle. Mrs Bury had been previously granted this exemption for several vehicles operated by her.

Should the Licensing Committee agree to grant Mrs Bury an exemption from Conditions 5a and 5b of the Council’s Licence Conditions for Private Hire Vehicles,

then the following conditions would be attached to the licence:-

- (i) that the licensed BMW 218 Gran Tourer registration M4 4WYR be exempt from licence conditions 5a and 5b whilst being used for air and sea port travel and executive hire purposes, as outlined in the application by Mrs Bury;
- (ii) that, should the vehicle be used for private hire other than air and sea port travel and executive hire, then the applicant shall immediately notify the Licensing Authority and the exemption shall cease in relation to such hiring;
- (iii) that the vehicle displays an identification disc on the front and rear windscreens, as specified by the Licensing Authority.

UNANIMOUSLY RESOLVED that the application submitted by Mrs Julie Michelle Bury for an exemption from conditions 5a and 5b of the Council's Licence Conditions for Private Hire Vehicles for her BMW 218 Gran Tourer registration number M4 4WYR be granted in accordance with the conditions detailed within the report.

4. PRIVATE HIRE VEHICLE LICENCE

The Committee considered an application from Mr Philip Ashley Jenkins of Ashley's Executive Cars, 2 Llys Pendderi, Bryn, Llanelli, Carmarthenshire, to be granted an exemption from Conditions 5a and 5b of the Council's Licence Conditions for Private Hire Vehicles for his BMW 520 Auto Estate registration number CP16 AUA.

Mr Jenkins had requested that, as he intended to operate this vehicle for executive hire only, that he be granted an exemption from Conditions 5a and 5b of the Council's Licence Conditions, namely that he be not required to display door stickers and a licence plate on the rear bumper of his vehicle. Mr Jenkins had been previously granted this exemption for vehicles operated by him.

Should the Licensing Committee agree to grant Mr Jenkins an exemption from Conditions 5a and 5b of the Council's Licence Conditions for Private Hire Vehicles, then the following conditions would be attached to the licence:-

- (i) that the licensed BMW 520 Auto Estate registration CP16 AUA be exempt from licence conditions 5a and 5b whilst being used for executive hire purposes, as outlined in the application by Mr Jenkins;
- (ii) that, should the vehicle be used for private hire other than executive hire, then the applicant shall immediately notify the Licensing Authority and the exemption shall cease in relation to such hiring;
- (iii) that the vehicle displays an identification disc on the front and rear windscreens, as specified by the Licensing Authority.

UNANIMOUSLY RESOLVED that the application submitted by Mr Philip Ashley Jenkins for an exemption from conditions 5a and 5b of the Council's Licence Conditions for Private Hire Vehicles for his BMW 520 Auto Estate registration number CP16 AUA be granted in accordance with the conditions detailed within the report.

5. APPLICATION TO RENEW A HACKNEY CARRIAGE/PRIVATE HIRE DUAL DRIVER'S LICENCE - MR KELVIN TREVOR JONES

The Committee considered an application from Mr Kelvin Trevor Jones of 3 Llys Picton, Picton Court, Carmarthen to renew his Hackney Carriage/Private Hire Dual Driver's Licence.

Mr Jones was 72 years of age and Condition 25 of the Council's Conditions of Licensing for Hackney Carriage and Private Hire Dual Drivers states that "The driver shall be at least twenty one years of age and must not be older than seventy years of age".

Mr Jones had produced a medical certificate confirming that he was fit to drive a Hackney Carriage/Private Hire Vehicle.

The Committee thereupon

UNANIMOUSLY RESOLVED that the application by Mr Kelvin Trevor Jones to renew his Hackney Carriage/Private Hire Dual Driver's Licence be granted.

6. APPLICATION FOR THE GRANT OF A HACKNEY CARRIAGE/PRIVATE HIRE DUAL DRIVER'S LICENCE - MR PETER FREDERICK PALMER

The Committee considered an application from Mr Peter Frederick Palmer of Llainwern, Maesycrugiau, Pencader for the grant of a Hackney Carriage/ Private Hire Dual Driver's Licence.

Mr Palmer was 70 years of age and Condition 25 of the Council's Conditions of Licensing for Hackney Carriage and Private Hire Dual Drivers states that "The driver shall be at least twenty one years of age and must not be older than seventy years of age".

Mr Palmer had produced a medical certificate confirming that he was fit to drive a Hackney Carriage/Private Hire Vehicle.

The Committee thereupon

UNANIMOUSLY RESOLVED that the application by Mr Peter Frederick Palmer for the grant of a Hackney Carriage/Private Hire Dual Driver's Licence be granted.

FURTHER RESOLVED that a report be submitted to the Committee for consideration at the next meeting on the possibility of delegating authority to officers to process applications from persons over the age of 70.

7. APPLICATION TO RENEW A HACKNEY CARRIAGE/PRIVATE HIRE DUAL DRIVER'S LICENCE - MR PETER MORGAN SALMON

The Committee considered an application from Mr Peter Morgan Salmon of 7 Gwendraeth Town, Kidwelly to renew his Hackney Carriage/Private Hire Dual Driver's Licence. The Committee interviewed Mr Salmon with regard to his

application.

The Public Health Services Manager recommended that Mr Salmon's application be granted with a warning as to his future conduct.

The Committee thereupon

UNANIMOUSLY RESOLVED that, in line with the Council's guidelines, the application submitted by Mr Peter Morgan Salmon to renew his Hackney Carriage/ Private Hire Dual Driver's Licence be granted and that he be issued with a warning as to his future conduct.

8. APPLICATION TO RENEW A HACKNEY CARRIAGE/PRIVATE HIRE DUAL DRIVER'S LICENCE - MR ANDREW ROBERT DAVIES

The Committee considered an application from Mr Andrew Robert Davies of Flat 1, Black Lion Hotel, Pentre Road, St. Clears to renew his Hackney Carriage/Private Hire Dual Driver's Licence. The Committee interviewed Mr Davies with regard to his application.

The Public Health Services Manager recommended that Mr Davies' application be granted with a warning as to his future conduct.

The Committee thereupon

UNANIMOUSLY RESOLVED that, in line with the Council's guidelines, the application submitted by Mr Andrew Robert Davies to renew his Hackney Carriage/ Private Hire Dual Driver's Licence be granted and that he be issued with a warning as to his future conduct.

9. APPLICATION FOR THE GRANT OF A HACKNEY CARRIAGE/PRIVATE HIRE DUAL DRIVER'S LICENCE - MR CHRISTOPHER PHILLIPS

[NOTE: Councillor H.I. Jones, having earlier declared an interest in this item, left the meeting prior to the consideration and determination thereof.]

The Committee considered an application from Mr Christopher Phillips of 22 Millbrook Crescent, Carmarthen for the grant of a Hackney Carriage/Private Hire Dual Driver's Licence.

The Committee interviewed Mr Phillips with regard to his application.

The Public Health Services Manager recommended that Mr Phillips' application be refused.

The Committee thereupon

UNANIMOUSLY RESOLVED to retire into private session in order to receive legal advice pursuant to Paragraph 16 of Schedule 12A of the Local Government Act 1972.

Following the adjournment the Committee reconvened to advise of its decision.

RESOLVED that, in line with the Council's guidelines, the application submitted by Mr Christopher Phillips for the grant of a Hackney Carriage/Private Hire Dual Driver's Licence be granted.

Reasons

On the evidence presented the Committee was satisfied that the applicant was a fit and proper person to hold a licence.

10. APPLICATION TO RENEW A HACKNEY CARRIAGE/PRIVATE HIRE DUAL DRIVER'S LICENCE - MR JASON RICHARD VAUGHAN

The Committee considered an application from Mr Jason Richard Vaughan of 17 Maesybryn, St. Clears, Carmarthen to renew his Hackney Carriage/Private Hire Dual Driver's Licence.

The Committee interviewed Mr Vaughan with regard to his application.

The Public Health Services Manager recommended that Mr Vaughan's application be refused.

The Committee thereupon

UNANIMOUSLY RESOLVED to retire into private session in order to receive legal advice pursuant to Paragraph 16 of Schedule 12A of the Local Government Act 1972.

Following the adjournment the Committee reconvened to advise of its decision.

UNANIMOUSLY RESOLVED that, in line with the Council's guidelines, the application submitted by Mr Jason Richard Vaughan to renew his Hackney Carriage/Private Hire Dual Driver's Licence be granted, however, the licence be suspended for 14 days.

Reasons

On the evidence presented the Committee was satisfied that it was necessary to suspend the licence in order to protect the public

11. MINUTES - 7TH APRIL, 2016

UNANIMOUSLY RESOLVED that the minutes of the meeting of the Licensing Committee held on the 7th April, 2016 be signed as a correct record.

CHAIR

DATE

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol